Cardiff Research Centre
Room 401
County Hall
Atlantic Wharf
CF10 4UW

Dear Consultee,

Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Act 2014
Public Spaces Protection Order – Proposed Dog Controls

Cardiff Council are seeking your views on proposals to control dogs across the city of Cardiff, by introducing a Public Spaces Protection Order (PSPO). Whilst the majority of dog owners are responsible, clean up after their dogs and keep them under control, there are still a minority of irresponsible dog owners which create significant problems.

Currently the Dog (Fouling of Land) Act 1996, is not supported via Magistrates Courts and will eventually be repealed due to there being more up to date legislation, specifically the Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Act 2014.

The introduction of a PSPO in respect of dog controls will replace existing byelaws currently in place to control dogs in particular areas across Cardiff. The current byelaws are outdated, with some dating back to 1964. Since the implementation of byelaws; boundaries and land ownership has changed.

Cardiff Council would like to consult you, as a key stakeholder on the PSPO proposals and welcome any comments and recommendation you may have. The PSPO proposals are;

- The prohibition of dog fouling in all public places owned and/or maintained by the Council,
- The exclusion of dogs in all enclosed playgrounds, marked sports pitches and Schools, which are owned and/or maintained by Cardiff Council.
- A requirement that dogs are kept on leads within all Cemeteries owned and/or maintained by Cardiff Council.
- A requirement allowing authorised officers to give a direction that a dog (s) be put and kept on a lead if necessary.
- A requirement to ensure that dog owners / walkers carry bags or other suitable means for the disposal of dog faeces.
- Increasing the charge for a breach of the PSPO to £100

Under the Act, a local Authority must make a Public Space Protection Order if satisfied that two conditions are met, namely:

1) Activities carried on (or likely will be carried on) within the authority's area have (or will have) a detrimental effect on the quality of life in the locality, And;
2) Activities are or are likely to be persistent, unreasonable and justify the restrictions imposed by the order.

Further details, including the list of proposed areas can be found at www.cardiff.gov.uk/dogcontrols

Responses to this consultation can be made via the following methods:

- An online Survey at: www.cardiff.gov.uk/dogcontrols
- By e-mail to:consultation@cardiff.gov.uk
- In writing and send to the address at the top of this letter
- By telephone; call 029 2087 2087

The consultation will be open from the 10th September 2018 until 22nd October 2018.

Yours faithfully,

Matt Wakelam
Assistant Director – Street Scene
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun

Canolfan Ymchwil Caerdydd
Ystafell 401
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
CF10 4UW

Annwyl Ymgynghorai,

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) – Cynigion ar gyfer Rheolaethau ar Gŵn

Mae Cyngor Caerdydd am glywed eich barn ar gynigion ynghylch rheoli cŵn ledled dinas Caerdydd drwy gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC). Er bod y rhan fwyaf o berchnogion cŵn yn gyfrifol, yn glanhau eu baw ac yn eu cadw dan reolaeth, mae lleiafrif bach o hyd sy'n anghyfrifol ac sy'n creu problemau sylweddol.

Ar hyn o bryd, nid yw Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 yn cael ei hategu yn y Llysoedd Ynadon a bydd deddfwriaeth fwy diweddar yn ei disodli cyn hir, yn benodol Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Bydd cyflwyno GDMC o ran rheoli cŵn yn disodli is-ddeddfau sydd ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio i reoli cŵn mewn ardaloedd penodol yng Nghaerdydd. Mae'r is-ddeddfau presennol wedi hen ddyddio, gyda rhai yn eu lle ers 1964. Ers gweithredu'r is-ddeddfau hyn yn wreiddiol, mae ffiniau a pherchnogaeth tir wedi newid.

Hoffai Cyngor Caerdydd ymgynghori â chi, fel rhanddeilad allweddol, ynghylch y cynigion GDMC ac rydym yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gennych. Y cynigion GDMC yw:

- Gwahardd baeddu cŵn ym mhob man cyhoeddus a berchnogir a/neu a gynhelir gan y Cyngor.
- Gwahardd cŵn ym mhob man chwarae caeëdig, meysydd chwaraeon wedi'u marcio ac ysgolion, y mae Cyngor Caerdydd yn berchen arnynt a/neu'n eu cynnal.
- Gofyniad i gadw cŵn ar dennyn o fewn pob mynwent y mae Cyngor Caerdydd yn berchen arni a/neu'n ei chynnal
- Gofyniad sy'n caniatáu i swyddogion awdurdodedig roi cyfarwyddyd bod ci/cŵn yn cael ei roi/eu rhoi a'u cadw ar dennyn os bydd angen.
- Gofyniad i sicrhau bod perchnogion cŵn a phobl sy'n mynd â chŵn am dro yn cario bagiau neu ffordd arall briodol o gael gwared ar faw cŵn.
- Codi'r tâl am dorri'r GDMC i £100

Dan y ddeddf, rhaid i awdurdod lleol wneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus os yw'n fodlon bod dau amod wedi'u bodloni, sef:

3) Mae gweithgareddau a gynhelir (neu sy'n debygol o gael eu cynnal) o fewn ardal yr awdurdod yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd yn y lleoliad; ac
4) Mae gweithgareddau yn barhaus, yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a roddir ar waith gan y gorchymyn, neu maent yn debygol o fod felly.

Mae rhagor o fanylion, ynghyd â rhestr o'r ardaloedd arfaethedig yn www.caerdydd.gov.uk/rheolicwn

Gellir ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn y ffyrdd canlynol:

- Arolwg ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/rheolicwn
- Drwy e-bost i: ymgynghoriad@caerdydd.gov.uk
- Yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad ar frig y llythyr hwn
- Dros y ffôn drwy alw 029 2087 2087

Bydd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 10 Medi 2018 a 22 Hydref 2018.

Yn gywir,

Matt Wakelam
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strydlun